



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

YSTADEGAU

Aelwydydd a warchodir (cyfansoddiad a nodweddion yn ystod y pandemig coronafeirws (COVID-19)): Gorffennaf 2020

Dadansoddiad gan ddefnyddio data cysylltiedig i amcangyfrif nifer yr aelwydydd a warchodir ym mis Gorffennaf 2020 yn ôl y math o aelwyd.

Cyhoeddwyd gyntaf: 3 Tachwedd 2020

Diweddarwyd ddiwethaf: 3 Tachwedd 2020

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/aelwydydd-warchodir-cyfansoddiad-nodweddion-yn-ystod-y-pandemig-coronafeirws-covid-19-gorffennaf-2020-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Cynnwys

1. Prif ganlyniadau

2. Aelwydydd a warchodir

3. Pobl a warchodir sy'n byw ar eu pennau eu hunain, yn ôl oedran a rhyw

4. Pobl a warchodir neu sy'n byw gyda rhywun a warchodir

5. Gwybodaeth am y set ddata

6. Gwybodaeth am ansawdd a methodoleg

7. Manylion cyswllt

1. Prif ganlyniadau

- Roedd tua 130,000 o bobl ar y rhestr warchod yng Nghymru erbyn mis Gorffennaf 2020.
- Roedd dros 121,000 o aelwydydd yng Nghymru yn cynnwys person oedd yn gwarchod ei hun. Roedd oddeutu 64,000 (neu 53%) o'r rhai oedd yn gwarchod eu hunain yn byw ar eu pennau eu hunain, ac roedd ychydig o dan eu hanner (47%) yn 70 oed a throsodd.
- Nid oedd y rhan fwyaf o aelwydydd lle'r oedd rhywun yn gwarchod ei hun yn cynnwys mwy na 2 oedolyn heb blant.
- Roedd dros 92,000 o bobl yn byw rhai y gofynnwyd iddynt warchod eu hunain, felly roedd tua 223,000 o bobl mewn aelwydydd a warchodir.
- Gofynnwyd i fwy o fenywod na dynion warchod eu hunain, a mwy o fechgyn nag o ferched.
- Serch hynny, roedd mwy o blant yn byw gyda rhywun oedd yn gwarchod ei

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://llyw.cymru/aelwydydd-warchodir-cyfansoddiad-nodweddion-yn-ystod-y-pandemig-coronafeirws-covid-19-gorffennaf-2020-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

hun nag o blant oedd yn gwarchod eu hunain.

2. Aelwydydd a warchodir


Amcangyfrifir bod 121,800 o aelwydydd yn cynnwys person oedd ar y rhestr warchod ddiwedd mis Gorffennaf 2020. Mae hyn yn gyfystyr â thua 9% o aelwydydd yng Nghymru (yn seiliedig ar [amcangyfrifon aelwydydd ar gyfer canol 2019](#)). Roedd ychydig dros hanner yr aelwydydd a warchodir (64,000 neu 53%) yn cynnwys 1 oedolyn yn byw ar ei ben ei hun (neu aelwydydd 'oedolion unigol' fel y dangosir yn Siart 1) tra bod 35,000 (neu 29%) yn cynnwys 2 oedolyn heb unrhyw blant. O ganlyniad, roedd mwyafrif helaeth (81%) o'r aelwydydd a warchodir yn cynnwys dim mwy na 2 oedolyn heb blant preswyl (o ran cymhariaeth, roedd y ffigur hwn yn 63% ar gyfer aelwydydd ledled Cymru gyfan yn 2019). Roedd tua 3% o'r aelwydydd a warchodir (tua 3,500) yn cynnwys 1 oedolyn ac 1 neu fwy o blant (o gymharu â 7% ledled Cymru yn 2019).

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/aelwydydd-warchodir-cyfansoddiad-nodweddion-yn-ystod-y-pandemig-coronafeirws-covid-19-gorffennaf-2020-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Siart 1: Aelwydydd a warchodir yng Nghymru yn ôl math o aelwyd, Gorffennaf 2020



Ffynhonnell: Banc data Cyswilt Diogel Gwybodaeth Ddienw (SAIL)

* Gallai gynnwys aelwydydd ag oedolion sy'n byw ar eu pennau eu hunain neu mewn pâr na chafodd eu nodi mewn manau eraill oherwydd eu bod yn rhannu'r un Cyfeirnod Eiddo, h.y. blociau o fflatiau ac ati.

Aelwydydd a warchodir yng Nghymru yn ôl math o aelwyd, Gorffennaf 2020 (MS Excel)

Mae'r amcangyfrifon hyn yn seiliedig ar y rhai oedd yn byw mewn cyfeiriad preswyl yr un pryd â rhywun ar y rhestr warchod. Fodd bynnag, gall y Cyfeirnod Eiddo a ddefnyddir i sefydlu hyn berthyn i fwy nag un annedd (e.e. blociau o fflatiau), felly mae'n bosibl bod nifer y preswylwyr sy'n byw gyda pherson a warchodir wedi'i oramcangyfrif mewn rhai achosion. Yn ogystal, ni fu'n bosibl eithrio cartrefi gofal preswyl o'r rhestr o breswylfeydd (y gellir disgwyl iddynt ymddangos fel aelwydydd mwy sy'n cynnwys mwy na 3 oedolyn). O ganlyniad, gall niferoedd gwirioneddol aelwydydd mawr fod yn is, tra gall nifer yr aelwydydd llai fod yn uwch na'r amcangyfrifon a gyflwynir yn Siart 1.

Ar gyfer y rhan fwyaf o awdurdodau lleol, mae Siart 2 yn dangos nad oedd mwy


Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://llyw.cymru/aelwydydd-warchodir-cyfansoddiad-nodweddion-yn-ystod-y-pandemig-coronafeirws-covid-19-gorffennaf-2020-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

nag 80% o aelwydydd a warchodir yn cynnwys mwy na 2 oedolyn heb blant preswyl. Hefyd, mewn llawer o awdurdodau roedd dros hanner yr aelwydydd a warchodir yn aelwydydd oedolion unigol. Ar gyfartaledd roedd tua 9% o aelwydydd a warchodir yn cynnwys plant.

Siart 2: Aelwydydd a warchodir yn ôl math ac awdurdod lleol, Gorffennaf 2020



Ffynhonnell: Banc data Cyswilt Diogel Gwybodaeth Ddiennw (SAIL)

* Gallai gynnwys aelwydydd ag oedolion sy'n byw ar eu pennau eu hunain neu mewn pâr na chafodd eu nodi mewn manau eraill oherwydd eu bod yn rhannu'r un Cyfeirnod Eiddo, h.y. blociau o fflatiau ac ati.

Aelwydydd a warchodir yn ôl math ac awdurdod lleol, Gorffennaf 2020 (MS Excel)

3. Pobl a warchodir sy'n byw ar eu pennau eu hunain, yn ôl oedran a rhyw

Roedd ychydig o dan hanner y rhai oedd yn gwarchod eu hunain ac yn byw ar


Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/aelwydydd-warchodir-cyfansoddiad-nodweddion-yn-ystod-y-pandemig-coronafeirws-covid-19-gorffennaf-2020-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

eu pennau eu hunain (47%) yn 70 oed a throsodd, ac roedd y mwyafrif helaeth yn 50 oed neu drosodd (87%). Roedd y band oedran 70 i 74 yn cynnwys dros 10,000 o bobl oedd yn gwarchod eu hunain, gyda mwy o fenywod na dynion wedi cael eu cynghori i wneud hynny. Roedd hyn hefyd yn wir am bobl 75 oed a throsodd. I'r rhai hyd at 44 oed roedd mwy o'r dynion nag o'r menywod oedd wedi cael eu cynghori i warchod eu hunain yn byw ar eu pennau eu hunain, ond gyda llai na 4,000 yn gwneud hynny ar gyfer pob band oedran.

Siart 3: Proffil oedran pobl a warchodir sy'n byw ar eu pennau eu hunain, Gorffennaf 2020



Ffynhonnell: Banc data Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw (SAIL)

Proffil oedran pobl a warchodir sy'n byw ar eu pennau eu hunain, Gorffennaf 2020 (MS Excel)


Pan gaiff ei ddadansoddi yn ôl oedran ac awdurdod lleol, mae'n amlwg bod y rhan fwyaf o bobl sy'n gwarchod eu hunain ac yn byw ar eu pennau eu hunain dros 60 oed a bod y rhan fwyaf o'r rhain yn y grŵp oedran 60 i 74. Mae hyn yn wir ar draws pob awdurdod lleol yng Nghymru fel y dangosir yn Siart 4.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/aelwydydd-warchodir-cyfansoddiad-nodweddion-yn-ystod-y-pandemig-coronafeirws-covid-19-gorffennaf-2020-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Siart 4: Proffil oedran pobl a warchodir sy'n byw ar eu pennau eu hunain yn ôl awdurdod lleol, Cymru, Gorffennaf 2020



Ffynhonnell: Banc data Cyswilt Diogel Gwybodaeth Ddiennw (SAIL)

[Proffil oedran pobl a warchodir sy'n byw ar eu pennau eu hunain yn ôl awdurdod lleol, Cymru, Gorffennaf 2020 \(MS Excel\)](#)

4. Pobl a warchodir neu sy'n byw gyda rhywun a warchodir

Erbyn mis Gorffennaf 2020 roedd 130,000 o bobl yng Nghymru wedi cael eu cynghori i warchod eu hunain; o'r rhain roedd llai na 5,000 yn blant o dan 18 oed. Nodwyd bod dros 92,000 o bobl yn byw gyda pherson a warchodir, felly amcangyfrifwyd bod dros 223,000 o bobl yn byw ar aelwydydd a warchodir. O'r rhai oedd yn byw gyda rhywun oedd yn gwarchod ei hun, roedd tua 79,000 yn oedolion a thros 13,000 yn blant. Roedd y rhan fwyaf o blant (74%) yn byw gyda

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o [LLYW.CYMRU](https://llyw.cymru), efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.


Evch i <https://llyw.cymru/aelwydydd-warchodir-cyfansoddiad-nodweddion-yn-ystod-y-pandemig-coronafeirws-covid-19-gorffennaf-2020-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

rhywun y gofynnwyd iddo warchod ei hun yn hytrach nag wedi cael cyngor i warchod eu hunain.

Mae'r amcangyfrif cyffredinol o 18,000 o blant oedd yn byw ar aelwydydd a warchodir yn is na'r amcangyfrif a gyflwynwyd mewn datganiad blaenorol sy'n ymwneud â **phlant mewn aelwydydd a warchodir**. Roedd y ffigur yn y datganiad blaenorol yn seiliedig ar wahanol setiau data, gan gynnwys plant 3 i 19 oed yn y CYBLD (Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion). Mae'r datganiad hwn yn cyfrif plant fel rhai o dan 18 oed yn unig. Ceir trafodaeth bellach yn **Adran 6** isod ynghylch y gwahaniaeth o ran yr amcangyfrifon o blant.

Siart 5: Oedolion a phlant oedd yn gwarchod eu hunain neu'n byw gyda pherson(au) oedd yn gwarchod eu hunain, Gorffennaf 2020



Ffynhonnell: Banc data Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw (SAIL)

Oedolion a phlant oedd yn gwarchod eu hunain neu'n byw gyda pherson(au) oedd yn gwarchod eu hunain, Gorffennaf 2020 (MS Excel)

Caiff y ffigurau hyn eu dadansoddi yn ôl rhyw yn Siart 6, ynghyd ag a oedd rhywun yn gwarchod ei hun neu'n byw gyda rhywun oedd yn gwarchod ei hun. Gofynnwyd i fwy o fenywod nag o ddynion warchod eu hunain, ond roedd nifer gweddol gyfartal o fenywod a dynion yn byw gyda pherson y gofynnwyd iddo warchod ei hun. Gofynnwyd i fwy o fechgyn nag o ferched warchod eu hunain, ac fel y dangosir uchod roedd plant yn fwy tebygol o fod yn byw gyda rhywun


Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/aelwydydd-warchodir-cyfansoddiad-nodweddion-yn-ystod-y-pandemig-coronafeirws-covid-19-gorffennaf-2020-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

oedd yn gwarchod ei hun nag oeddent o fod yn gwarchod eu hunain.

Siart 6: Oedolion a phlant oedd yn gwarchod eu hunain neu'n byw gyda pherson(au) oedd yn gwarchod eu hunain, yn ôl rhyw, Gorffennaf 2020



Ffynhonnell: Banc data Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw (SAIL)

[Oedolion a phlant oedd yn gwarchod eu hunain neu'n byw gyda pherson\(au\) oedd yn gwarchod eu hunain, yn ôl rhyw, Gorffennaf 2020 \(MS Excel\)](#)

5. Gwybodaeth am y set ddata

Mae'r dadansoddiad hwn yn seiliedig ar ddata diennw a gedwir yn y system Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw (SAIL), sy'n rhan o seilwaith ymchwil cofnodion e-iechyd cenedlaethol Cymru. Cafodd yr holl ddata eu gwneud yn ddienw cyn eu cael, a chawsant eu defnyddio o fewn yr amgylchedd diogel a ddarparwyd gan Fanc Data SAIL.

Mae'r Rhestr Gwarchod Cleifion yn rhestr o bobl sy'n agored iawn i niwed yn glinigol. Bernir mai hwy sydd fwyaf tebygol o fynd yn sâl os byddant yn dal y

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/aelwydydd-warchodir-cyfansoddiad-nodweddion-yn-ystod-y-pandemig-coronafeirws-covid-19-gorffennaf-2020-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

coronafeirws. Dylai pobl sy'n gwarchod eu hunain fod wedi derbyn llythyr neu gael gwybod gan eu meddyg teulu eu bod yn y grŵp hwn. Mae'r Rhestr Gwarchod Cleifion wedi'i llunio ar sail amrywiaeth o ffynonellau data o'r Gwasanaeth Iechyd. Mae rhagor o wybodaeth am y ffynonellau a'r fethodoleg ar gael ar wefan [Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru](#).

Mae set ddata 'C-19-COHORT20' yn SAIL yn darparu set ddiffiniol o gofnodion dienw i bawb sy'n byw yng Nghymru ar 1 Ionawr 2020, a grëwyd yn benodol at ddibenion dadansoddi ymchwil i'r feirws COVID-19 ac effaith ehangach y pandemig. O'r set ddata hon mae'n bosibl nodi a yw rhywun sy'n byw yng Nghymru wedi marw ers hynny, boed hynny o COVID-19 ai peidio. Cysylltwyd y Rhestr Gwarchod Cleifion â data o'r tabl C-19-COHORT20 er mwyn deall nodweddion aelwydydd sy'n cynnwys pobl a warchodir.

6. Gwybodaeth am ansawdd a methodoleg

Mae'r Uned Ymchwil Data Gweinyddol (ADRU) yn Llywodraeth Cymru yn cynnal prosiectau ymchwil er budd y cyhoedd gan ddefnyddio setiau data gweinyddol sefydledig. Yn ystod pandemig y coronafeirws (COVID-19), mae ADRU wedi ymgymryd â nifer o brosiectau cysylltu data. Roedd un o'r prosiectau hyn yn cynnwys cysylltu'r Rhestr Gwarchod Cleifion â data Gwasanaeth Demograffeg Cymru (WDS) i amcangyfrif nifer y bobl sy'n byw gyda pherson a warchodir. Mae'r dadansoddiad hwn yn defnyddio'r Rhestr Gwarchod Cleifion ar 26 Gorffennaf 2020 pan oedd 130,490 o rifau GIG unigryw ar y rhestr. Cysylltwyd y Rhestr Gwarchod Cleifion â data WDS ar gyfer y rhai oedd yn preswyllo o 1 Mawrth 2020 hyd at 31 Awst 2020.

Er mwyn amcangyfrif nifer yr oedolion a'r plant sy'n byw ar aelwydydd lle mae pobl a warchodir, cysylltwyd y rhestr warchod i ddechrau â data WDS i ddod o hyd i'r maes cyswllt preswyl dienw (RALF). Yna defnyddiwyd y RALF i nodi pobl eraill sy'n byw yn yr un breswylfa ar ddechrau 2020. O'r data cyfunol roedd yn bosibl penderfynu a oedd pobl oedd yn rhannu'r un cyfeiriad yn gwarchod eu hunain neu'n byw gyda'r rhai y gofynnwyd iddynt wneud hynny, yn seiliedig ar pryd y gwnaethant symud i fyw yno. Ar gyfer plant defnyddiwyd dyddiadau geni hefyd i benderfynu ar breswylfa. Tybiwyd bod cofnodion oedd yn rhannu'r un

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://llyw.cymru/aelwydydd-warchodir-cyfansoddiad-nodweddion-yn-ystod-y-pandemig-coronafeirws-covid-19-gorffennaf-2020-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

RALF yn perthyn i'r un aelwyd a chawsant eu crynhoi i ddarparu niferoedd o aelwydydd. Yna, roedd yn bosibl nodi mathau o aelwydydd yn seiliedig ar nifer y bobl ac a oedd plant yn preswyllo yno.

Ar gyfer y rhan fwyaf o RALFs (ond nid pob un) cofnodir cod Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is (LSOA) sy'n galluogi dadansoddiad daearyddol ardal fach yn SAIL. Ar gyfer y dadansoddiad hwn lle darparwyd LSOA fe'i defnyddiwyd i agregu niferoedd aelwydydd ar lefel awdurdod lleol.

Gwnaed y gwaith o drin data yn SQL DB2, SPSS fersiwn 21 ac MS Excel ym Manc Data Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddiennw (SAIL). Gwelir isod ein proses cysylltu data.

- Dechrau â'r Rhestr Gwarchod Cleifion
- Cysylltu'r Rhestr â C-19-COHORT20 mewn tabl newydd
- Nodi pobl oedd yn gwarchod eu hunain neu'n byw gyda rhywun oedd yn gwarchod ei hun
- Creu tabl cryno ar gyfer pawb mewn aelwyd a warchoddir
- Creu crynodeb o'r holl aelwydydd sy'n cynnwys person a warchoddir
- Nodi'r math o aelwyd yn seiliedig ar nifer yr oedolion a'r plant
- Dethol ffigurau a dadansoddiadau ar gyfer personau ac aelwydydd
- Dethol ffigurau fesul awdurdod lleol

Mae'r mathau o aelwydydd a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn wedi'u seilio'n fras ar nifer y bobl ym mhob aelwyd ac a yw plant yn preswyllo yno. Mae'r mathau o aelwydydd a ddefnyddir yn wahanol i'r rhai a ddefnyddir mewn amcangyfrifon aelwydydd ar gyfer Cymru oherwydd gwahaniaethau mewn methodoleg rhwng dulliau cysylltu data ac amcangyfrifon aelwydydd a chymhwyso rheolaeth datgelu ar gyfer rhai mathau llai cyffredin o aelwydydd.

Mae'r amcangyfrif o 18,000 o blant sy'n byw ar aelwydydd a warchoddir yn is na'r nifer a gyflwynwyd mewn datganiad blaenorol (20,000). Roedd y datganiad blaenorol yn cysylltu'r Rhestr Gwarchod Cleifion â'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) gan ddefnyddio cyfenw a chod post. Ar gyfer y datganiad hwn, mae'r Rhestr Gwarchod Cleifion wedi'i chysylltu â data preswyllo a ddarparwyd gan Wasanaeth Demograffeg Cymru (WDS) gan ddefnyddio dynodwyr eiddo a dyddiadau cofrestru meddygon teulu. Mae gwahaniaethau yn

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Enwch i <https://llyw.cymru/aelwydydd-warchoddir-cyfansoddiad-nodweddion-yn-ystod-y-pandemig-coronafeirws-covid-19-gorffennaf-2020-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

yr amcangyfrifon o blant rhwng dau ddatganiad yn deillio o amrywiadau mewn prosesau paru, data ffynhonnell a sut y diffinnir plant. Hefyd, gall cyfatebiaeth ffug ddigwydd wrth baru data. Gall cyfenwau cyffredin berthyn i wahanol aelwydydd o fewn yr un cod post, a gall dynodwyr eiddo ymwneud â mwy nag un aelwyd sydd yn yr un cyfeiriad. Gall y ddau hyn arwain at gyfatebiaeth ffug, a fydd yn effeithio ar yr amcangyfrifon ar lefel leol a chenedlaethol. Yn ogystal, mae'r niferoedd yn y datganiad hwn yn ymwneud â'r rhai ar aelwydydd ac nid ydynt yn cynnwys y rhai sy'n byw mewn sefydliadau cymunedol (e.e. cartrefi plant, ysgolion preswyl).

Mae'r ymchwil hon wedi'i chynnal fel rhan o raglen waith ADR Cymru. Mae rhaglen waith ADR Cymru yn cyd-fynd â'r themâu blaenoriaeth fel y nodwyd yn strategaeth genedlaethol Llywodraeth Cymru: Ffyniant i Bawb. Mae ADR Cymru yn dwyn ynghyd arbenigwyr gwyddor data yn Ysgol Feddygol Prifysgol Abertawe, staff o Sefydliad Ymchwil, Data a Dulliau Cymdeithasol ac Economaidd Cymru (WISERD) ym Mhrifysgol Caerdydd a thimau arbenigol o fewn Llywodraeth Cymru i ddatblygu tystiolaeth newydd sy'n cefnogi **Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol** drwy ddefnyddio'r Gronfa Ddata SAIL ym Mhrifysgol Abertawe, i gysylltu a dadansoddi data dienw. Mae ADR Cymru yn rhan o ADR UK a ariennir gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (rhan o Ymchwil ac Arloesi'r DU) (grant ES/S007393/1).

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (WFG)

Hanfod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn sefydlu saith nod llesiant i Gymru sef Cymru fwy cyfartal, llewyrchus, cydnerth, iach a chyfrifol ar lefel fyd-eang, gyda chymunedau cydlynol a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. O dan adran (10)(1) o'r Ddeddf, rhaid i Weinidogion Cymru (a) gyhoeddi dangosyddion ("dangosyddion cenedlaethol" sy'n gorfod cael eu cymhwyso at ddibenion mesur cynnydd tuag at gyflawni'r nodau llesiant, a (b) gosod copi o'r dangosyddion cenedlaethol gerbron y Cynulliad Cenedlaethol. Cafodd y 46 o ddangosyddion cenedlaethol eu gosod ym Mawrth 2016.

Mae gwybodaeth am y dangosyddion, ynghyd â naratif ar gyfer pob un o'r nodau

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://llyw.cymru/aelwydydd-warchodir-cyfansoddiad-nodweddion-yn-ystod-y-pandemig-coronafeirws-covid-19-gorffennaf-2020-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

llesiant a'r wybodaeth dechnegol gysylltiedig ar gael yn adroddiad **Llesiant Cymru**.

Gwybodaeth bellach am **Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**.

Gallai'r ystadegau a ddefnyddir yn y datganiad hwn ategu'r dangosyddion cenedlaethol a chael eu defnyddio gan fyrdau gwasanaethau lleol mewn perthynas â'u hasesiadau llesiant a'u cynlluniau llesiant lleol.

7. Manylion cyswllt

Ystadegydd: Kathryn Helliwell
Llinell Ymholiadau Cyffredinol
Ffôn: 0300 025 5050
FfônI: UYDGCymru@llyw.cymru

Cyfryngau: 0300 025 8099

SB 35/2020

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/aelwydydd-warchodir-cyfansoddiad-nodweddion-yn-ystod-y-pandemig-coronafeirws-covid-19-gorffennaf-2020-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Ynghylch y ddogfen hon

Mae'r ddogfen hon yn gopi o'r dudalen we [Aelwydydd a warchodir \(cyfansoddiad a nodweddion yn ystod y pandemig coronafeirws \(COVID-19\)\)](#): **Gorffennaf 2020** a lawrlwythwyd.

Ewch i <https://llyw.cymru/aelwydydd-warchodir-cyfansoddiad-nodweddion-yn-ystod-y-pandemig-coronafeirws-covid-19-gorffennaf-2020-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch; darllenwch ein [datganiad hygyrchedd](#) i gael rhagor o wybodaeth.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/aelwydydd-warchodir-cyfansoddiad-nodweddion-yn-ystod-y-pandemig-coronafeirws-covid-19-gorffennaf-2020-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).